



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

Y Cyngorau Iechyd Cymuned (CIC) yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG





CIC – Pwy ydym ni?

Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau GIG. Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr lleol sy'n ymddwyn fel llygaid a chlustiau'r claf a'r cyhoedd.

Ceir 7 CIC sy'n cwmpasu gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

Rydym yn annog a chefnogi pobl i ddweud eu dweud wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau GIG.

Rydym yn darparu cyswllt pwysig rhwng y rheini sy'n cynllunio a chyflenwi gwasanaethau GIG, y rheini sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Beth yw ein gwaith?

Rydym yn:

- Ystyried materion iechyd o safbwynt y cyhoedd
- Ymweld â gwasanaethau lleol, i glywed am brofiadau cleifion a'r rheini sy'n gofalu a phoeni amdanynt
- Edrych ar gynlluniau a chynigion GIG lleol a chenedlaethol, i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion cymunedau lleol
- Cwrdd â rheolwyr GIG yn rheolaidd
- Siarad â phobl yn eu cymunedau am eu barnau am, a'u profiadau o wasanaethau GIG
- Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion di-dâl, cyfrinachol ac annibynnol, i bobl sydd eisiau cymorth i godi pryder am ofal a thriniaeth GIG.

Dweud eich dweud

Mae sawl ffordd y gallwch ein helpu i ddylanwadu ar eich gwasanaethau GIG.

Gallwch:

- Rhannu eich profiad o'r GIG gyda ni
- Dweud wrthym eich barn ar sut dylai gwasanaethau GIG gael eu cynllunio a'u cyflenwi yn eich ardal
- Gweithio gyda ni, trwy wirfoddoli fel aelod CIC.

Gallwn helpu hefyd os ydych chi eisiau codi pryderon am ofal a thriniaeth GIG a hoffech gymorth ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

Os hoffech chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, yna cysylltwch â ni. Gallwch ei lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu gallwch ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa ni (manylion cyswllt isod).

www.communityhealthcouncils.org.uk

02920 235 558

Llawr Cyntaf,
Ysbyty Cimla,
Cimla, Castell Nedd
SA11 3SU

Ffôn: 01639 683490
E-bost: office.abmchc@waleschc.org.uk

